WYTHNOS GWIRFODDOLWYR 2023

'Dathlu ac Ysbrydoli'

Beth yw'r Wythnos Gwirfoddolwyr (mewn 18 gair, 44 gair ac 189 o eiriau)

Mewn 18 gair

Gŵyl wirfoddoli flynyddol ledled y DU yw'r Wythnos Gwirfoddolwyr sy'n cael ei gynnal rhwng 1-7 Mehefin bob blwyddyn.

Mewn 44 gair

Gŵyl wirfoddoli flynyddol ledled y DU yw'r Wythnos Gwirfoddolwyr sy'n cael ei gynnal rhwng 1-7 Mehefin bob blwyddyn. Dechreuodd ymgyrch Wythnos Gwirfoddolwyr ym 1984 ac mae'n wythnos arbennig pan mae mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn cael eu hannog i ddweud diolch enfawr i'w gwirfoddolwyr.

Mewn 189 o eiriau

Gŵyl wirfoddoli flynyddol ledled y DU yw'r Wythnos Gwirfoddolwyr sy'n cael ei gynnal rhwng 1-7 Mehefin bob blwyddyn. Mae ymgyrch Wythnos Gwirfoddolwyr yn wythnos arbennig pan mae mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn cael eu hannog i ddathlu eu gwirfoddolwyr.

Mae gwirfoddolwyr yn ganolog i waith nifer di-ri o elusennau a mudiadau eraill. Maen nhw'n bresenoldeb gwerthfawr mewn llawer o gymunedau, yn gwneud gwahaniaeth mewn lleoedd mor amrywiol â chlybiau chwaraeon, llyfrgelloedd, ysgolion, coetiroedd ac ysbytai.

Mae'r ymgyrch flynyddol, a sefydlwyd ym 1984, yn cydnabod y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i'n cymunedau ni bob dydd.

Gobeithir y bydd pob unigolyn, ar draws pob sector yng Nghymru, yn uno i rannu negeseuon i ddathlu pŵer gwirfoddoli i ddod â chymunedau ynghyd a bod yno pan fo angen.

I lawer o fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, bydd yr wythnos hon hefyd yn gyfle i hysbysu darpar wirfoddolwyr o'r amrediad o gyfleoedd gwirfoddoli drwy gydol y flwyddyn. Bydd y rheini â diddordeb yn cael eu gwahodd i fynd i'r platfformau gwirfoddoli ar-lein sydd ar gael ym mhob gwlad i weld beth sydd ar gael. Yng Nghymru, gwahoddir unigolion i fynd i www.volunteering-wales.net.